# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Chwefror 2022

Amser: 14.00 - 14.46

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/12613) yn:

http://senedd.tv/cy/12613

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Luke Fletcher AS<br>Joel James AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Datganodd Joel James ei fod yn aelod o BASC, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, a allai fod yn berthnasol i dair deiseb yn ystod y cyfarfod.

## 2 Cafodd y sesiwn dystiolaeth ar gyfer P-06-1207 Dechreuwch gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg ei gohirio tan 7 Mawrth

Gohiriwyd y sesiwn dystiolaeth tan 7 Mawrth.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-06-1231 Dylid cyflwyno arosfannau bysiau mwy gwyrdd, a mwy 'cyfeillgar i wenyn' ledled Cymru

Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn ystyried mentrau seilwaith gwyrdd yn flaenoriaeth ac y dylai Asesiadau Seilwaith Gwyrdd Awdurdodau Lleol ysgogi'r camau nesaf yn lleol. Felly, cytunodd i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### 3.2 P-06-1234 Ni ddylid cyfyngu ffordd newydd Blaenau'r Cymoedd i 50 mya

Nododd y Pwyllgor y bu'r ffordd yn destun gwaith craffu helaeth, gan gynnwys ymchwiliad cyhoeddus, a'i bod wedi'i dylunio a'i hadeiladu i weithredu gyda therfyn cyflymder uchaf o 50mya. Gan ei bod bellach ar agor, dylai'r ffordd ddeuol fod yn fwy diogel na'r hen ffordd sengl tair lôn, felly cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### 3.3 P-06-1239 Canslo Arholiadau TGAU yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y bu'r Llywodraeth yn glir ei bod yn bwriadu i arholiadau fynd yn eu blaen eleni, ond mae trefniadau wrth gefn os nad yw sefyllfa iechyd y cyhoedd yn golygu bod modd i'r arholiadau fynd yn eu blaen. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y straen y mae pobl ifanc yn ei wynebu yn ystod y cyfnod hwn, ond dywedodd ei bod yn anodd gweld pa gamau pellach y gall eu cymryd ynghylch y ddeiseb. Cytunodd i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### 3.4 P-06-1241 Llywodraeth Cymru i gwrdd â chynulleidfa ehangach o ofalwyr di-dâl.

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Cyfarfu â'r deisebydd mewn digwyddiad bwrdd crwn yn 2021.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i dynnu sylw Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y ddeiseb, a gweld a fydd lle yn y dyfodol i'r deisebydd gymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliadau neu sesiynau casglu tystiolaeth ar y mater.

### 3.5 P-06-1242 Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i:

- ofyn am farn y Gweinidog ar y cwestiynau penodol a godwyd gan y deisebydd yn ei gohebiaeth ddiweddaraf;
- ysgrifennu'n uniongyrchol at bob Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn am y camau penodol sy'n cael eu cymryd yn eu hardaloedd i fynd i'r afael â'r materion hyn;
- mynd ar drywydd yr ohebiaeth yr anfonodd y deisebydd at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol; a
- gwneud popeth yn ein gallu i dynnu sylw at stori'r deisebydd ynghylch y mater pwysig hwn.

### 3.6 P-06-1244 Er cof am Aberfan, dylid ailenwi Ysbyty George Thomas

Datganodd Luke Fletcher AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

Pan ddaw'r ymateb gan y bwrdd iechyd i law, bydd y Pwyllgor yn ei anfon ymlaen at y deisebydd ac yn cau'r ddeiseb.

### 3.7 P-06-1245 Cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal yn y Senedd

Cytunodd y Pwyllgor i anfon y ddeiseb at y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd i'w thrafod yn ei raglen waith, diolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-05-1010 Ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn 2020 fel bod gwersi yn cael eu dysgu

Nododd y Pwyllgor fod y Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd yn cynnal adolygiad annibynnol o'r adroddiadau Adran 19. Yng ngoleuni hyn, cytunodd y Pwyllgor i longyfarch y deisebydd am hyn ac am ganlyniadau cadarnhaol eraill y gwaith deisebu, gan gynnwys rhoi mwy o ystyriaeth i'r effeithiau ar iechyd meddwl wrth fuddsoddi yn y dyfodol i liniaru llifogydd, a chaeodd y ddeiseb.

### 4.2 P-05-1097 Dylid gwahardd cewyll adar hela

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain.

Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd ynghylch ymgynghori â rhanddeiliaid pan fydd yn bwrw ymlaen â'r adolygiad o'r Cod, er na all roi amserlen benodol ar hyn o bryd oherwydd effaith ffliw'r adar, Covid a Brexit. Yng ngoleuni y sicrwydd hwb gan y Gweinidog, cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

## 4.3 P-05-1112 Helpwch gymunedau yng Nghymru i brynu asedau cymunedol: Gweithredwch Ran 5, Pennod 3 o Ddeddf Lleoliaeth 2011

Datganodd Luke Fletcher AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Cytunodd y Pwyllgor i gadw'r ddeiseb ar agor wrth aros am y diweddariad nesaf gan y Gweinidog.

## 4.4 P-06-1201 Gwahardd saethu rhywogaethau adar sydd mewn perygl difrifol a rhoi'r diogelwch sydd ei angen mor daer arnynt!

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu'n ôl at y Gweinidog yn gofyn i Lywodraeth Cymru:

- wneud gwaith monitro statudol ar nifer yr adar sy'n cael eu saethu yng Nghymru i sicrhau bod y data ar gael; a
- rhannu pa fesurau brys tymor byr sy'n cael eu hystyried i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y ddeiseb.

### 4.5 P-06-1202 Dylid gwahardd lladd cywion diwrnod oed yng Nghymru

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu'n ôl at y Gweinidog i:

- rannu barn arbenigol yr HSA a'r RSPCA; a
- rhannu barn y deisebydd a'i alwad ar i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU i archwilio ffyrdd cadarnhaol o ddod â difa cywion i ben.

Cytunodd hefyd i gau'r ddeiseb ar y sail honno.

### 4.6 P-06-1254 Dylid mynnu bod pob darluniad o'n draig yn cynnwys pidyn

Caeodd y Pwyllgor y ddeiseb.

### 4.7 P-06-1246 Cael gwared ar y terfyn niferoedd ar gyfer cynulliadau awyr agored a chaniatáu i ddigwyddiadau cymunedol barhau

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth bellach a gafwyd gan y deisebydd a chytunwyd i gau'r ddeiseb, gan nad oes unrhyw gamau pellach i'w cymryd wrth i'r rheoliadau gael eu llacio.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6.

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod y dystiolaeth - P-06-1207 Dechreuwch gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg

Gohiriwyd yr eitem tan 7 Mawrth.